GIG CYMRU NHS WALES

Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Welsh Ambulance Services NHS Trust




## Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

# Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-Argyfwng




Mae yna ambiwlansys sy'n cymryd pobl i apwyntiadau ysbyty a chlinigau. Gelwir y rhain

**Gwasanaeth Cludo Cleifion**

**Di-Argyfwng.**





Mae'n rhaid bod gennych **angen iechyd** i ddefnyddio'r gwasanaethau cludiant .

Mae **angen iechyd** yn rhywbeth fel

- os oes angen ocsigen arnoch chi pan fyddwch chi'n teithio
- os yw'n anodd i chi gerdded

Mae'r rhestr lawn o anghenion iechyd ar ein gwefan **www.ambulance.nhs.wales**




Pan fyddwch chi'n cael apwyntiad, dylai'r ysbyty neu'r clinig anfon llythyr apwyntiad atoch.

Dylai'r llythyr nodi

- eich rhif GIG
- amser, dyddiad a chyfeiriad eich apwyntiad.

Mae angen y wybodaeth hon arnom ni i wneud archeb.



I drefnu gwasanaeth, ffoniwch ein Llinell Archebu ar **0300 123 2303** .

Yn gyntaf, byddwn yn gofyn cwestiynau i chi am eich angen iechyd.

Yna, os yw eich angen iechyd ar ein rhestr, byddwn yn gofyn i chi am fanylion eich apwyntiad.



Os nad yw eich angen iechyd ar ein rhestr, gallwn roi gwybod i chi am wasanaethau cludo eraill.

Efallai y gallai'r gwasanaethau eraill hyn eich helpu gyda chludiant.



Mae gennym yrwyr ceir gwirfoddol hefyd, sy'n defnyddio eu car eu hunain.

Efallai y cewch chi wasanaeth gan yrrwr car gwirfoddol os yw

- eich angen iechyd ar ein rhestr, a
- gallwch fynd i mewn ac allan o gar.



Os ydych chi eisiau defnyddio Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-Argyfwng nad ydynt yn rhai Brys, ffoniwch **0300 123 2303**

(Mae'n rhad ac am ddim i ffonio'r rhif)




Os yw'n anodd trefnu cludiant ar eich cyfer eich hun, gall rhywun arall eich helpu.

Gallwch hefyd drefnu cludiant ar gyfer rhywun arall sydd ag angen iechyd.



Os byddwch yn trefnu ambiwlans ond nid oes ei angen arnoch chi mwyach, ffoniwch **0300 123 2303**
i ganslo eich archeb.

Mae'n bwysig iawn canslo eich archeb os nad oes ei angen arnoch.



# Sut oedd eich profiad gyda ni?



Mae dweud wrthym am eich profiadau a’ch straeon yn bwysig iawn

Rydym wir eisiau i bobl fod wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym am sicrhau bod pobl yn cael y gofal a'r cymorth gorau y gallant.



Gall eich straeon wneud gwahaniaeth i'r hyn a wnawn a gall helpu i wneud profiadau pobl eraill yn well.

Os hoffech roi adborth am Wasanaeth Ambiwlans Cymru, gallwch cysylltu trwy:



Ffôn: **0300 123 9207**




E-bost: **PECI.team@wales.nhs.uk**




Neu gallwch ymweld â'r adran **'Dweud Eich Dweud'** ar ein gwefan yn **www.ambulance.nhs.wales**